Cartref!

Creu Cymru Gwell i Bawb

Etholiad Senedd 2021

#CaruCartrefi

Cartref.

Mae “Arhoswch gartref” yn ymadrodd a glywsom dro ar ôl tro yn ystod y pandemig.

Ni chafodd ein cartrefi erioed gymaint o sylw; mae llawer ohonom yn treulio cymaint o amser o’u mewn; ac mae cynifer o agweddau o’n bywydau yn troi o’u hamgylch.

Nid yw ‘Cartref’ erioed wedi golygu mwy.

Rhywle diogel, cysurus a saff i oroesi storm y pandemig. Rhywle sy’n addasu i’r newid yn ein hanghenion. Rhywle yn gysylltiedig â’n gwaith, addysg, gwasanaethau cyhoeddus – ac â’n gilydd.

Mae pob etholiad yn bwysig. Ond mae’r etholiad hwn yn ymwneud â diffinio llwybr Cymru allan o’r heriau a achosodd y pandemig i bob un ohonom. Mae gan ei ganlyniad y potensial i lywio llwybr i ffyniant ac iechyd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Ymysg y caledi anhygoel a achoswyd gan COVID-19, mae cyfle i edrych o’r newydd ar hen heriau, i godi ein huchelgeisiau ac i ddod yn ôl yn gryfach.

Ni fu ble rydym yn byw erioed yn bwysicach i sut ydym yn byw. Mae’r heriau mawr i’n hinsawdd, i’n heconomi a threchu’r anghydraddoldeb yn ein cymdeithas yn dal i fod yno. Mewn rhai achosion, mae’r pandemig wedi gwneud yr her hyd yn oed yn fwy a golygu bod mwy o frys nag erioed i ganfod datrysiadau. Mae hyn yn ddifrifol.

Ac mae cymaint y gallwn ei wneud, gyda’n gilydd.

Mae gennym weledigaeth bod Cymru yn wlad lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. Mae cartref da, gyda’r gefnogaeth gywir lle mae ei hangen, yn hollbwysig i bob person neu deulu, beth bynnag eu hamgylchiadau.

Bydd angen partneriaeth gyda ffocws a phenderfyniad ym mhob rhan o Gymru i wireddu hyn. Rydym yn ddiolchgar, felly, am gyfraniad bron gant o gyfeillion o sefydliadau allanol yn gweithio wrth ochr cannoedd o gydweithwyr o gymdeithasau tai i ymchwilio’r heriau a datblygu’r syniadau am newid a amlinellir yn y ddogfen hon.

Gwyddom nad yw syniadau yn werth dim heb gynlluniau ymarferol a thrwyadl; a’r arweinyddiaeth a’r egni i wneud i hynny ddigwydd. Rydym eisiau chwarae ein rhan. Y flwyddyn nesaf byddwn yn cyhoeddi ein ‘Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu’ sy’n cyd-fynd â’r ddogfen hon. Bydd hyn yn nodi’r camau gweithredu manwl y credwn sydd eu hangen i roi’r syniadau hyn ar waith, ac i feithrin adferiad sy’n rhoi blaenoriaeth i gartref gweddus a fforddiadwy fel y man cychwyn ar gyfer bywydau llwyddiannus a lleoedd llwyddiannus.

Mae pawb ohonom angen rhywle i’w alw’n gartref. Dyma’r amser i wneud i hynny ddigwydd.

Stuart Ropke, Prif Weithredydd, Cartrefi Cymunedol Cymru

Ein syniadau ar gyfer newid

Clic i fynd i:

1. Buddsoddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
2. Gweithredu ar y cyd ar heriau cyffredin
3. Lleoedd mae pobl eisiau byw ynddynt
Yr achos ar gyfer newid
Atodiad A: Ein syniadau ar gyfer newid
Ein cynnig

Nid yw'r heriau a amlinellwn yn y maniffesto hwn yn rhai newydd. Ond mae gan effaith cyfunol digwyddiadau byd-eang megis newid hinsawdd, poblogaeth sy'n heneiddio, y newid yn ein perthynas gydag Ewrop a'r pandemig y potensial i gynyddu anghydraddoldeb, taro'r tlotaf yn galetaf a'n gosod yn ôl yn hytrach nag ymlaen.

Ein cenhadaeth ar y cyd yw darparu cartrefi ansawdd da, fforddiadwy mewn cymunedau ledled Cymru. Eto rydym yn darparu llawer mwy na dim ond brics a morter, ac rydym eisiau gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i gynyddu ein heffaith ar y cyd.

Drwy ein buddsoddiad mewn cartrefi newydd a chartrefi presennol, rydym yn helpu i gryfhau economïau lleol: darparu swyddi a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol. A drwy waith ar draws ein busnesau a'n cartrefi ymdrechwn fod yn sector carbon isel – gan ostwng ein heffaith ar yr amgylchedd a mynd ati i edrych am gyfleoedd i ostwng biliau ynni.

Drwy ddarparu tai hygyrch a thai â chymorth, cymhorthion ac addasiadau, a chymorth cysylltiedig â thai rydym yn helpu i gynnig dewis gwirioneddol i bobl am ble maent yn byw a'u helpu i aros mor annibynnol ag sydd modd os yw eu hanghenion yn newid, yn agos at y bobl a'r lleoedd sydd bwysicaf iddynt. Ac mae ein haelodau sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig, yn cynnwys gofal preswyl a gofal nyrsio, yn cynnig gofal ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person pan na all pobl aros yn eu cartrefi eu hunain.

Rydym o ddifrif am newid. Fel sefydliadau preifat sy'n bodoli er y budd cyhoeddus rydym ynddi am yr hirdymor. Byddwn yn dod â'n hasedau, pobl a chyllid i bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad a gwasanaethau cyhoeddus lleol i gefnogi'r newidiadau a amlinellwn yn y ddogfen hon.

I wneud hyn rydym angen i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad gymryd camau beiddgar yn y meysydd dilynol:

1. Buddsoddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Gwyddom y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad wneud cyfaddawdau anodd. Byddwn angen rhaglen fuddsoddi gytbwys sy'n gwneud i bob punt weithio'n galed i roi hwb economaidd, yn ogystal â bod o fudd i iechyd a llesiant y genedl gyfan a chenedlaethau'r dyfodol.

Dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf a'i fesur yn ôl yr effaith y gall ei gael ar genedlaethau'r dyfodol i gefnogi symud i economi a seiliwyd ar egwyddorion llesiant. Dylai hyn cynnwys y meysydd gwariant blaenoriaeth nesaf ar gyfer y llywodraeth nesaf:

- Rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd, £1.5n ar gyfer o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd effeithiol o ran ynni.
- Pecyn ysgogi 10 mlynedd, £4bn a gefnogir gan gyfuniad o gyllid cyhoeddus a phreifat, i ôl-osod tai cymdeithasol erbyn 2030.

Er ymdrechion llawer, mae sefydliadau'n aml yn colli'r cyfle i gydweithio. Caiff hyn ei briodoli'n aml i her lethol 'heddiw', yr angen cyson i 'ddiffodd tannau' problemau, osgoi risg a diwylliant - a gaiff eu hybu gan gyllid anhyblyg a chyfyngedig o ran amser.

Byddai sicrwydd cyllid tymor hirach yn rhoi'r gallu i gymdeithasau tai gynllunio, buddsoddi, cymryd risgiau a meithrin partneriaethau. Hoffem weld:

- Rhaglen 5 mlynedd ar gyfer grant tai cymdeithasol.[1]
- Parhau'r setliad rhent cymdeithasol 5 mlynedd presennol, gyda fforddiadwyedd yn greiddiol iddo.
- Setliad cyllid dangosol 4 mlynedd yn gysylltiedig â chwyddiant i gefnogi'r gweithgareddau sy'n atal digartrefedd, drwy'r Grant Cymorth Tai.[2]

Gwyddom fod adnoddau dan bwysau a bod argyfwng COVID-19 yn golygu y bydd yn rhaid i'r llywodraeth nesaf ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus ac economaidd sydd ar ein gwarthaf. Mae'n anochel y bydd hyn yn symud mantol gwariant hyd yn oed ymhellach tuag at ymyriadau ymatebol a chadarn. Rhaid defnyddio tymor nesaf y Senedd i wrthdroi'r symud yma.

Ail fantoli gwariant ymaith o argyfwng i ataliaeth hirdymor dros dymor nesaf y Senedd. I gefnogi'r gwaith hwn dylai Llywodraeth Cymru:

- Wneud ei gynnydd tuag at y nod yma yn dryloyw a dal ei hunan i gyfrif drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
- Dynodi cyllid pontio sydd ei angen i gefnogi'r symud i ddull ataliol. Dylai hyn gynnwys cronfa bontio 3 blynedd i drawsnewid y ffordd y lliniarwn ddigartrefedd yn seiliedig ar ailgartrefu cyflym a Tai yn Gyntaf.

Mae defnyddio ein pobl ac asedau i gynyddu a chyflymu ein gwaith yn hanfodol wrth ymateb i'r heriau economaidd a chymdeithasol a wynebwn. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad yn cymryd y camau dilynol.

Cyflymu a rhoi sicrwydd i'r broses ddatblygu. I gefnogi hyn dylai Llywodraeth Cymru:

- Roi cefnogaeth ychwanegol i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n galluogi gweithgaredd economaidd a buddsoddiad, megis cynllunio.
- Gwneud yn dryloyw y tir cyhoeddus dros ben, sy'n addas ar gyfer cartrefi a chynyddu gwaredu'r tir hwnnw ar gyfer datblygu tai gan roi ystyriaeth i'r gwerth cymdeithasol yn ystod y gwerthiant.

1 . www.ucl.ac.uk/bartlett/construction/news/2020/sep/new-research-shows-potential-influence-longer-term-funding-affordable-housing-supply
2. www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-ENG.pdf

Byddwn yn chwarae ein rhan i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn ddatblygwyr cyfrifol, yn darparu cartrefi ansawdd uchel ar draws pob daliadaeth sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl leol, gyda'r gefnogaeth hyblyg, ymatebol sy'n galluogi pobl i wella a chynnal eu hiechyd, annibyniaeth a llesiant yn eu cymuned leol.

Byddwn yn buddsoddi yn lleol. Byddwn yn defnyddio ein prosesau caffael i gefnogi busnesau lleol ac yn canolbwyntio ar y gwerth a gaiff ei greu gan yr hyn a wariwn, ac nid dim ond y gost. Byddwn yn anelu i gynyddu'r swm a wariwn yng Nghymru o 85c i 90c ym mhob punt erbyn diwedd tymor nesaf y Senedd.

Ty Solar, Tai Coastal a Western Solar

Byddwn yn adeiladu cadwyni cyflenwi lleol cryf i wneud cartrefi presennol yn effeithiol o ran ynni, drwy weithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant, busnesau bach a chanolig seiliedig yng Nghymru a mentrau cymdeithasol.

Byddwn yn gwneud i arian cyhoeddus fynd ymhellach drwy gyfateb pob £1 a fuddsoddir mewn tai cymdeithasol newydd. Mae cymdeithasau tai yn fusnesau preifat sy'n bodoli er y budd cyhoeddus. Mae'r sefyllfa hon yn golygu y gallwn ysgogi £3bn o fuddsoddiad preifat i'w gwario yng Nghymru. Bwriadwn gynyddu'r buddsoddiad hwn gyda biliwn o bunnoedd arall yn ystod tymor nesaf y Senedd[3].

3. www.chcymru.org.uk/uploads/general/2439_CHC_Global_Accounts_2019_v4.pdf

2. Gweithredu ar y cyd ar heriau cyffredin

Gwyddom fod adnoddau dan bwysau a bod gwasanaethau statudol yn brysur tu hwnt ac yn ymateb i argyfyngau. Gallwn helpu. Gallai gwell cydlynu gyda phartneriaid cymunedol, tebyg i gymdeithasau tai, roi cefnogaeth ar gam llawer cynharach gan eu hatal rhag gwaethygu i bwynt argyfwng, gan gadw pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau cyhyd ag sydd modd.

Ond gwyddom na chafodd y system bresennol hyn ei chynllunio i gefnogi hyn ar lawr gwlad. Mae cystadleuaeth rhwng systemau rheoli perfformiad, canolfannau atebolrwydd ac awydd risg a phartneriaeth yn helpu i greu amgylchedd a all ei gwneud yn anos i weithwyr proffesiynol rannu dealltwriaeth a gwybodaeth, cymryd penderfyniadau a chydweithio. **Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad yn cymryd y camau gweithredu dilynol:**

Gwella systemau, partneriaethau a phrosesau i'w gwneud yn haws cydweithio ar y materion sy'n penderfynu ar ein cyfleoedd o fyw'n dda. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i weithredu i bontio'r bwlch gweithredu rhwng strategaeth lefel uchel a darpariaeth fel y gall partneriaid a gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i ddarparu gwasanaethau a rhannu gwybodaeth i wella penderfynyddion ehangach iechyd. Dylai hyn gynnwys adolygiad o drefniadau partneriaeth a darpariaeth presennol a mesurau perfformiad ar y cyd. Dylai trefniadau newydd hefyd adlewyrchu'n well y rôl y gall partneriaid anstatudol hirdymor, tebyg i gymdeithasau tai, ei wneud i ddarparu nodau a gaiff eu rhannu.

Hawl i dai digonol, a gefnogir gan yr adnoddau a'r dulliau i ddarparu hynny. Byddai hawl i gartref yn ymrwymiad clir gan y llywodraeth nesaf i ddod â'r argyfwng tai i ben. Rydym eisiau gweithio gyda'r llywodraeth nesaf i ddeall sut y gellid gweithredu a chyflawni hawl o'r fath.

Mae digartrefedd yn broblem gwasanaeth cyhoeddus sydd angen ymdrech gydlynol a chadarn ar draws y sector cyhoeddus a'u partneriaid. **Dylai'r llywodraeth nesaf weithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd** i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru.

Byddwn yn chwarae ein rhan i gyflawni ar yr heriau cyffredin hyn

Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddod â digartrefedd o dai cymdeithasol i ben drwy barhau i fuddsoddi mewn dulliau seiliedig ar drawma, i gryfhau ein partneriaethau lleol ac i herio ein prosesau a diwylliant.

United Welsh

Byddwn yn parhau i ledaenu mynediad i dai cymdeithasol fel datrysiad i ddigartrefedd ac anghydraddoldeb.

Byddwn yn sicrhau fod ein cartrefi yn fforddiadwy. Byddwn yn cyhoeddi polisïau rhent lleol, a ddatblygwyd gyda thenantiaid a phartneriaid gyda fforddiadwyedd a gwerth am arian yn greiddiol iddynt a chael ein dal i gyfrif amdanynt.

Byddwn yn buddsoddi amser ac adnoddau i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu â'r gymuned, gan greu gofod ar gyfer cyfranogiad go iawn mewn gwneud penderfyniadau ar gyfer ein tenantiaid a chymunedau.

Byddwn yn hyrwyddo cynhwysiant digidol, gan adeiladu ar arfer da i hybu sgiliau, cefnogaeth i ddefnyddio gwasanaethau digidol, a mynediad i offer a seilwaith.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu yn erbyn heriau cyffredin. Gwyddom nad yw bod o amgylch y bwrdd yn ddigon wrtho'i hunan. Fel sefydliadau â gwreiddiau mewn lleoedd a chymunedau byddwn yn dod â'n hadnoddau, asedau a gwybodaeth leol i weithredu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i leoedd a phobl.

Hafod Coach

3. Lleoedd mae pobl eisiau byw ynddynt

Mae cyfnodau clo lleol wedi rhoi ymdeimlad dyfnach i lawer ohonom o'r lleoedd lle'r ydym yn byw, eu ffiniau daearyddol a'r gwasanaethau cyhoeddus a busnesau sy'n gweithredu yno.

Un o ddelweddau mwyaf trawiadol y pandemig yw'r un o ganol trefi a chymunedau gwag. Nid yw'r heriau presennol i lwyddiant canol trefi yn amrywio o newid mewn demograffeg i amddifadedd ac esblygiad busnesau yn ystod y cyfnod hwn wedi diflannu ac mae colli swyddi mewn manwerthu, lletygarwch a gweithgynhyrchu i gyd yn fygythiad i drefi fel y gwyddom amdanynt.

Dylai Llywodraeth Cymru nesaf ddatblygu strategaeth gynhwysfawr a galluogi ar gyfer canol trefi sydd â chartrefi yn greiddiol iddi, gan rymuso cymunedau lleol i gymryd penderfyniadau am sut i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle. Dylai hyn gynnwys mwy o hyblygrwydd o fewn y broses gynllunio i alluogi lleoedd lleol i fod yn ystwyth yn eu hymateb i'r newid mewn galw ac arferion defnyddwyr, annog arbrofi yn nefnydd adeiladau gwag, gostwng darnio ffrydiau cyllid a sicrhau fod gan awdurdodau lleol adnoddau i ddod â her strategol ac arbenigedd lleol ar y lefel gywir i'r trafodaethau hyn.

Mae'r pandemig hefyd wedi ein dysgu fod gan y gofod (tu mewn a hefyd allan), cynllun a chysylltedd ein cartrefi ddylanwad mawr ar ein gallu i addasu i'r newid mewn amgylchiadau, bydded hynny'n iechyd neu economaidd.

Ar adeg pan mae pobl yn cael mynediad i wasanaethau iechyd, siarad gyda pherthnasau neu ffrindiau, gweithio neu gael mynediad i addysg i gyd yn digwydd ar-lein, mae cysylltiad rhyngrwyd cyflym a dibynadwy yn hollol hanfodol. **Dylai Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad roi mesurau ar waith i ddiweddu allgau digidol.** Dylai hyn gynnwys uwchraddio gofynion i bob cartref newydd i gynnwys cysylltedd digidol fel safonol ynghyd â buddsoddiad mewn seilwaith digidol a chymorth sgiliau i sicrhau y gall pawb gael mynediad i'r rhyngrwyd fel gwasanaeth cyhoeddus allweddol.

Mae cymdeithasau tai yn helpu i gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu gwasanaethau cymorth ac addasu'r cartref ei hun. Ac os yw anghenion pobl yn newid, mae'n rhaid i ni gefnogi cymorth a gofal ansawdd uchel sy'n rhoi dewis a hawl i unigolion. Ond **mae angen brys i ddiwygio'r system gofal a chymorth cymdeithasol a buddsoddiad fel y caiff ei yrru gan werth, yn hytrach na chost, a bod ganddi'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dinasyddion, y gweithlu a gwerth cymdeithasol i gymunedau.**

Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru **gynyddu cyllid gofal cymdeithasol** ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod:

- ffioedd yn talu am wir gost darparu gofal ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person.
- holl weithwyr gofal Cymru yn ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- gweithwyr gofal yn cael cyfleoedd cynnydd a gwahaniaethau tâl yn seiliedig ar gymwysterau, sgiliau a chyfrifoldebau.

Byddwn yn creu lleoedd mae pobl eisiau byw ynddynt

Byddwn yn gwneud i bob cysylltiad gyfrif; rhannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth leol gyda phartneriaid i sicrhau fod gwasanaethau'n gweithio i unigolion. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r rhai sydd â'r dasg o gynllunio am ffyniant ac atal digartrefedd.

Linc Cymru

Byddwn yn defnyddio ein gofodau ac adeiladau cymunedol i gefnogi grwpiau lleol a lleoedd ac i wneud gwasanaethau yn fwy cynaliadwy, adnewyddadwy a hygyrch. Gwyddom na fu erioed fwy o bwysau ar grwpiau elusennol a chymunedol ar adeg pan na fu erioed mwy o angen eu gwasanaethau.

Newydd

Byddwn yn cynyddu i'r eithaf yr effaith y gall byw yng nghanol tref ei wneud i ddod â mwy o ffyniant, iechyd a chysylltedd i'n trefi.

Byddwn yn dod yn sector carbon isel drwy weithredu ar draws ein holl weithgaredd i ostwng ein ôl-troed carbon a mynd ati i edrych am gyfleoedd i fynd i'r afael yn effeithlon â'r argyfwng hinsawdd. Bydd hyn yn golygu cynyddu adeiladu a chynhyrchu ynni amgylcheddol cyfrifol ynghyd â gwaith i ddatgarboneiddio ein stoc tai presennol. Byddwn yn ymchwilio'r ffordd orau y gallwn sicrhau fod ein cynnydd ar yr uchelgeisiau hyn yn dryloyw.

Yr achos ar gyfer newid.

Gostwng tlodi yw'r man cychwyn ar gyfer pobl a lleoedd llewyrchus, iach a chysylltiedig

Mae hyn yn ddifrifol!
Pam fod yn rhaid i ni weithredu yn awr.

Er yr holl ymdrechion, mae lefelau tlodi'n parhau'n ystyfnig o uchel: am dros ganrif bu Cymru yn gyson â'r lefelau uchel o dlodi.[4]

Mae rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn un o'r tlotaf yn Ewrop gyfan ac mae cynhyrchiant yng Nghymru yr isaf yn y Deyrnas Unedig.[5]

Nid yw cynyddu swyddi yn ddigon ar ben ei hun. O'r 420,000 o oedolion oedran gwaith sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, mae 60% yn byw ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn mewn gwaith.[6]

Mae Covid 19 yn bygwth cyflymu a gwaethygu'r heriau sy'n wynebu ein trefi.

- Dim ond yng Nghaerdydd y rhagwelir y bydd y boblogaeth oedran gwaith yn cynyddu dros y 15 mlynedd nesaf [7]
- Mae chwech o drefi Cymru yn yr ugain tref uchaf gyda'r llesiant cymdeithasol isaf ar draws y Deyrnas Unedig [8]
- Mae tair o drefi Cymru yn yr ugain tref gyda'r lefelau uchaf o ynysigrwydd cymdeithasol ar draws y Deyrnas Unedig[9]
- Yng Nghymru mae deg o'r ugain tref gyda'r lefelau uchaf o amddifadedd ar draws y Deyrnas Unedig[10]

Rydym o ddifrif am chwarae ein rhan

Gall tai da ysgogi ac ymestyn gweithgaredd economaidd yn lleol. Am bob 1 person a gyflogir yn llawn-amser gan gymdeithas tai, caiff 1.5 o swyddi ansawdd da eraill eu cefnogi mewn man arall yn yr economi. [11]

Bydd adeiladu 20,000 o dai cymdeithasol yn:

- Cefnogi 7,000 o swyddi a 3,000 o gyfleoedd hyfforddiant ar draws Cymru
- Cynhyrchu bron £2bn o allbwn economaidd
- Yn 2018/19 buddsoddodd cymdeithasau tai £4 miliwn i ddarparu hyfforddiant i'w tenantiaid gyda 8,000 o bobl yn derbyn datblygiad cyflogadwyedd a sgiliau [12]



4 www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48259327
5 www.pwc.co.uk/economic-services/ukeo/ukeo-november-2019-regional-productivity.pdf
6 www.bevanfoundation.org/commentary/making-work-a-route-out-of-poverty/
7 Cartrefi Cymunedol Cymru & Savills,'Gorwelion Tai: Sefydlu'r Her, 2017
8 Centre for Towns, T he effect of the COVID-19 pandemic on our towns and cities, 2020
9 Ibid
10 Ibid
11 www.chcymru.org.uk/uploads/general/2018_Economic_Impact_of_Welsh_HA_sector_Report_FINAL.pdf
12 www.chcymru.org.uk/uploads/general/2018_Economic_Impact_of_Welsh_HA_sector_Report_FINAL.pdf

Caiff ein hiechyd ei benderfynu gan ble ydym yn byw a sut ydym yn byw

Mae hyn yn ddifrifol!

Pam fod yn rhaid i ni weithredu yn awr.

Mae gan Gymru lefelau uwch o bobl sy'n hŷn, mewn iechyd gwael ac yn dlotach na gweddill y Deyrnas Unedig.

Mae eich disgwyliad bywyd yn dibynnu ar ble'r ydych yn byw yng Nghymru. Mae'r bwlch rhwng y nifer o bobl sy'n byw mewn iechyd da neu dda iawn rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus yng Nghymru yn 19 mlynedd ar gyfer dynion a 18 mlynedd ar gyfer menywod.

Mae tai gwael yn ddrud i'r GIG. Mae tai gwael yn costio £95m y flwyddyn i'r GIG mewn costau triniaet.

Rydym yn talu am ofal argyfwng. Dim ond 15-20% o iechyd a llesiant cenedl sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal iechyd ac eto caiff dros 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru ei dyrannu i wariant iechyd, gyda 74% o hynny â ffocws ar wasanaethau aciwt. [13]

Digartrefedd yw'r symptom mwyaf andwyol o'n hargyfwng cyfunol mewn iechyd cyhoeddus. Caiff traean digartrefedd ei achosi gan broblem iechyd ac oedran cymedrig marwolaeth pobl sy'n profi digartrefedd yn 44 oed ar gyfer dynion a 42 oed ar gyfer menywod. [14]

Disgwylir y bydd pwysau ar ofal cymdeithasol oedolion yn cynyddu gan tua 4.1 y cant mewn termau gwirioneddol. Byddai angen £1 biliwn erbyn 2030/31 i ariannu'r pwysau hyn yn llawn, yn cynyddu i £2.3 biliwn o £1.3 biliwn yn 2015/16 [15]

Rydym o ddifrif am chwarae ein rhan

Mae cartref ansawdd da yn arbed arian i'r GIG.

- Gallai pob £1 a gaiff eu gwario ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd bregus arwain at enilliad o £4 ar fuddsoddiad. [16]
- Am bob £1 a gaiff eu gwario ar addasiadau cyn rhyddhau o ysbyty, mae arbediad o £7.50 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. [17]
- Gallai atal digartrefedd arwain at arbedion o tua £9,266 fesul person o gymharu â chaniatáu i ddigartrefedd barhau am 12 mis. [18]

Mae cartref ansawdd da yn gwella iechyd pobl [19]

- Mae addasiadau cartref yn arwain at 26% yn llai o anafiadau sydd angen triniaeth feddygol (a achosir gan godymau bob blwyddyn)
- 39% yn llai o dderbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau cardio-anadlol ac anafiadau yn y rhai gyda thai wedi eu huwchraddio
- Gostyngiad o 3.9% mewn ymweliadau i feddygon teulu ar gyfer cyflyrau anadlol ym muddiolwyr cynllun Nyth (o gymharu gyda chynnydd o 9.8% yn y grŵp rheoli).

Mae tai gwael yn costio £95m y flwyddyn i'r GIG

Gallai pob £1 a gaiff eu gwario ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd bregus arwain at enilliad o £4 ar fuddsoddiad

13 www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-ENG.pdf
14 phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/
15 www.health.org.uk/publications/reports/the-path-to-sustainability
16 phw.nhs.wales/news/poor-housing-costs-health-service-95m-per-year-new-report/
17 www.chcymru.org.uk/uploads/general/CHC-Economic-Impact-of-Affordable-Homes-ENG.pdf
18 www.chcymru.org.uk/uploads/general/CHC-Economic-Impact-of-Affordable-Homes-ENG.pdf
19 phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/

Mae COVID-19 wedi dangos i ni fod ein cysylltiadau gyda'n gilydd, gwaith a natur yn bwysig.

Mae hyn yn ddifrifol!

Pam fod yn rhaid i ni weithredu yn awr.

Mae gofod yn ein cartrefi yn brin. Roedd gan lai na thraean (31%) o bobl a arolygwyd ym mhob math o dai ofod arbennig ar gyfer swyddfa neu astudio a theimlai 11% nad oedd ganddynt ddigon o le ers y cyfnod clo. [20]

Mae mynediad cyfartal i swyddi, dysgu a chyfleoedd hyfforddiant yn dibynnu mwy nag erioed ar fynediad digidol[21], ac mae 17% o breswylwyr tai cymdeithasol wedi eu hallgau'n ddigidol – amcangyfrif o 60,000 o breswylwyr. [22]

Mae allgau digidol yn ddrud i bobl. Mae aelwydydd nad ydynt ar-lein yn colli arbedion o £560 y flwyddyn o siopa a thalu biliau ar-lein. [23]

Mae allgau digidol yn ddrud i'r pwrs cyhoeddus. Gallai pob cysylltiad a wneir y cyhoedd gyda darparydd gwasanaeth a phob trafodiad a wnânt ar-lein nad oedd yn flaenorol yn cael ei wneud ar-lein arbed rhwng £3 a £12 fesul trafodiad. [24]

Rydym o ddifrif am chwarae ein rhan

Rydym ynddo am yr hirdymor, gan wario arian gyda busnesau bach yn lleol. Mae cymdeithasau tai yn gwario 85c ym mhob punt yng Nghymru ac mae ganddynt uchelgais i gynyddu hyn i 90c yn y bunt erbyn diwedd tymor y Senedd.

Rydym yn gweithio gyda'n tenantiaid yn ystod y pandemig. Yn ystod pandemig COVID-19 gwnaeth cymdeithasau tai dros 37,000 alwad llesiant a chafodd 47% o'r preswylwyr hyn eu cefnogi gyda chyngor ac arweiniad penodol. [25]



20 Shelter Cymru, Arolwg You Gov, 2020
21 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20
22 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20
23 gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/111215-digital-inclusion-economic-social-benefits-en.pdf
24 Ibid
25 Centre for Excellence in Community Investment Welsh Impact Measures, 2020

Cartrefi

Mae'n hollol hanfodol mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Mae hyn yn ddifrifol!

Pam fod yn rhaid i ni weithredu yn awr.

Mae gan Gymru beth o'r stoc hynaf a lleiaf effeithiol o ran gwres yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Cafodd 32% o stoc tai Cymru ei godi cyn 1919. [26]

Er gwelliannau mawr, mae 155,000 o aelwydydd yn dal i wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru.[27] Mae tlodi tanwydd yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd incwm isel a dirwasgiad economaidd cyffredinol.

Rydym o ddifrif am chwarae ein rhan

Gallwn gadw pobl yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi am fwy o amser: Gallai uwchraddio cartrefi arwain at 39% yn llai o dderbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau cylchrediad ac ysgyfaint.

Bydd buddsoddi mewn cartrefi effeithiol o ran ynni yn rhoi hwb economaidd lleol. Byddai ailwampio hanner tai cymdeithasol Cymru dros dymor nesaf y llywodraeth yn cefnogi dros 12,000 swydd, 3,000 cyfle hyfforddiant a chreu £2.5bn mewn allbwn economaidd.



26 gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/independent-review-on-decarbonising-welsh-homes-report.pdf
27 gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/tackling-fuel-poverty-2020-to-2035.pdf

Atodiad A: Ein syniadau ar gyfer newid.

Buddsoddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:

1. Dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf a'i fesur yn ôl yr effaith y gall ei gael ar genedlaethau'r dyfodol

- Rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd, £1.5bn ar gyfer o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd effeithiol o ran ynni.
- Pecyn ysgogi 10 mlynedd – a gefnogir gan gyfuniad o gyllid cyhoeddus a phreifat – i ôl-osod tai cymdeithasol erbyn 2030.

2. Sicrwydd cyllid tymor hirach yn cynnwys:

- Rhaglen 5 mlynedd ar gyfer tai cymdeithasol.
- Parhau'r setliad rhent cymdeithasol 5 mlynedd presennol.
- Setliad cyllid dangosol 4 mlynedd yn gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

3. Ail-fantoli gwariant ymaith o argyfwng i ataliaeth hirdymor dros dymor nesaf y Senedd.

- Gwneud cynnydd tuag at y nod yma yn dryloyw a cheisio her drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
- Dynodi cyllid pontio sydd ei angen i gefnogi'r symud i ddull gweithredu ataliol.

4. Cyflymu a rhoi sicrwydd i'r broses datblygu.

- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n galluogi gweithgaredd economaidd a buddsoddiad, megis cynllunio.
- Gwneud yn dryloyw y tir cyhoeddus dros ben, sy'n addas ar gyfer tai a chynyddu gwaredu'r tir hwnnw ar gyfer datblygu tai gan roi ystyriaeth i'r gwerth cymdeithasol yn ystod gwerthiant.

Gweithredu ar y cyd ar heriau cyffredin

5. Gwella systemau, partneriaethau a phrosesau i'w gwneud yn haws cydweithio ar y materion sy'n penderfynu ein cyfleoedd o fyw'n dda

6. Hawl i gartref digonol, a gefnogir gan yr adnoddau a'r dulliau i gyflawni hynny.

7. Gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Lleoedd mae pobl eisiau byw ynddynt

8. Dylai Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad ddatblygu strategaeth gynhwysfawr a galluogi ar gyfer canol trefi gyda chartrefi yn greiddiol iddynt.

9. Rhoi mesurau ar waith i ddod ag allgau digidol i'r ben.

10. Diwygio'r sector gofal cymdeithasol fel y caiff ei yrru gan werth, yn hytrach na chost, a'i fod yn cael yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni.

Ein cynnig

Buddsoddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:

1. Byddwn yn ddatblygwyr cyfrifol, yn darparu cartrefi ansawdd uchel ar draws pob daliadaeth sy'n fforddiadwy a hygyrch i bobl leol.

2. Byddwn yn buddsoddi'n lleol ac yn gwario 90c ym mhob punt yng Nghymru erbyn diwedd tymor nesaf y Senedd.

3. Byddwn yn adeiladu cadwyni cyflenwi lleol i wneud cartrefi presennol yn effeithiol o ran ynni.

4. Byddwn yn gwneud i arian cyhoeddus fynd ymhellach gan gyfateb pob £1 a fuddsoddwyd mewn adeiladu tai cymdeithasol newydd.

Rhannu atebolrwydd ar heriau cyffredin

5. Byddwn yn parhau ein gwaith i ddod â digartrefedd o dai cymdeithasol i ben.

6. Byddwn yn parhau i ehangu mynediad i dai cymdeithasol fel datrysiad i ddigartrefedd ac anghydraddoldeb.

7. Byddwn yn sicrhau fod ein cartrefi yn fforddiadwy.

8. Byddwn yn buddsoddi amser ac adnoddau i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu â'r gymuned.

9. Byddwn yn hyrwyddo a chefnogi cynhwysiant digidol.

10. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu ar heriau cyffredin.

Lleoedd mae pobl eisiau byw ynddynt

11. Byddwn yn gwneud i bob cysylltiad gyfrif, gan rannu ein gwybodaeth a dealltwriaeth leol gyda phartneriaid i sicrhau fod gwasanaethau'n gweithio i unigolion.

12. Byddwn yn defnyddio ein gofodau ac adeiladau cymunedol i gefnogi grwpiau lleol a mannau lleol ac i wneud gwasanaethau yn fwy cynaliadwy, adnewyddadwy a hygyrch.

13. Byddwn yn cynyddu'r effaith y gall byw yng nghanol trefi ei wneud i ddod â mwy o ffyniant, iechyd a chysylltiad i'n trefi.

14. Byddwn yn dod yn sector carbon isel drwy weithredu ar draws ein holl weithgaredd i ostwng ein ôl-troed carbon a mynd ati i geisio cyfleoedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Nid yw Cartref erioed wedi golygu mwy.

www.hereforhomes.org.uk

#carucartrefi

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

www.chcymru.org.uk